Papurau i'w nodi 2
CfED 19/017/2017

# Cylch gorchwyl yr Adolygiad o Weithrediad ac Effaith y Cynllun Busnes

## Cyflwyniad

1. Mae'r papur hwn yn gwahodd aelodau'r Cyngor i nodi cylch gorchwyl yr Adolygiad o Weithrediad ac Effaith y Cynllun Busnes[1]. Caiff yr adolygiad ei gwblhau erbyn mis Chwefror 2018.

2. Amgaeir cylch gorchwyl drafft yr Adolygiad.

## Cefndir

3. Mae Adran 75 Deddf Llywodraeth Cymru 2006[2] yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud cynllun sy'n esbonio sut y byddant, wrth arfer eu swyddogaethau, yn ystyried buddiannau busnesau (Cynllun Busnes Gweinidogion Cymru).

4. Cafodd y Cynllun Busnes ei adolyg'r tro diwethaf gan Lywodraeth Cymru yn 2015 ac fe'i gosodwyd ger bron y Cynulliad ar ôl ymgynghori â Masnach Cymru a TUC Cymru.

5. Mae'r Cynllun Busnes yn cynnwys y gofyn a ddisgrifir ym mharagraff 31 bod Gweinidogion Cymru'n cyhoeddi adroddiad o leiaf bob dwy flynedd sy'n disgrifio sut y mae'r cynigion yn y Cynllun Busnes wedi'u rhoi ar waith.

## Dull Gweithredu

6. Swyddogion Llywodraeth Cymru fydd yn cynnal yr adolygiad, gyda chymorth Uned Partneriaid Cymdeithasol Cymru.

## Amseriad

7. Bydd yr adolygiad gorffenedig yn cael ei gyflwyno i Gyngor Datblygu'r Economi yn ei gyfarfod ym mis Chwefror.

---

[1] http://www.assembly.wales/laid%20documents/gen-ld10374/gen-ld10374-w.pdf
[2] http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2006/32/contents

**Cylch gorchwyl yr Adolygiad o Weithrediad ac Effaith y Cynllun Busnes**

**Cefndir**

Cafodd y Cynllun Busnes ei adolygu'r tro diwethaf yn 2015 a chafodd papur i'w nodi ei gynhyrchu ar gyfer cyfarfod Cyngor Adnewyddu'r Economi (Cyngor Datblygu'r Economi bellach)ym mis Mehefin 2015[3]. Gosodwyd y Cynllun Busnes adolygedig ger bron y Cynulliad ar 2 Hydref 2015[4].

Un o ofynion y Cynllun Busnes yw bod adolygiad ffurfiol yn cael ei gynnal o leiaf bob dwy flynedd o'r modd y mae'n cael ei roi ar waith a rhaid cyflwyno adroddiad i'r perwyl hwn i'r Cynulliad Cenedlaethol (paragraff 43, adran 75 Deddf Llywodraeth Cymru 2006).

**Y Cwmpas a'r Amcanion**

Cynnal adolygiad o 'Weithrediad ac Effaith y Cynllun Busnes' sy'n:

a. ystyried y modd y mae'r Cynllun Busnes wedi'i gynnal hyd yma; a

b. ystyried pa mor effeithiol y mae'r Cynllun Busnes yn cael ei roi ar waith ar draws Llywodraeth Cymru.

**Amseriad**

Caiff yr adolygiad ei gyflwyno i Gyngor Datblygu'r Economi yn ei gyfarfod ym mis Chwefror.

**Dull Gweithredu**

- Swyddogion Llywodraeth Cymru  fydd yn cynnal yr adolygiad gyda chymorth Uned Partneriaid Cymdeithasol Cymru (ar ran y partneriaid cymdeithasol).
- Gofynnir i randdeiliaid allanol a mewnol am eu barn i'n helpu â'r adolygiad ac i benderfynu ar argymhellion;
- Caiff fersiwn derfynol yr Adolygiad ei gyflwyno ger bron y Cynulliad Cenedlaethol yn unol ag Adran 75 Deddf Llywodraeth Cymru 2006.

---

[3] CfER01/06/15 - http://gov.wales/docs/det/meetings/150601-paper-to-note-cy.pdf
[4] GEN-LD10374 - http://www.assembly.wales/cy/bus-home/Pages/Plenary.aspx?assembly=4&category=Laid%20Document&keyword=GEN-LD10374